Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu 2025/26

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ac effaith Cymdeithas Tai United Welsh Cyf o ran agweddau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) ein busnes.

Rydym wedi dewis defnyddio'r fframwaith a luniwyd gan Weithgor Tai Cymdeithasol ESG y DU. Datblygodd y Grŵp Safon Adrodd ar Gynaliadwyedd ar gyfer Tai Cymdeithasol (SRS), a lansiwyd ym mis Tachwedd 2020, sy'n cwmpasu 48 o feini prawf. Mae'r Safon yn rhannu'r tair agwedd ESG yn 12 thema, ac mae pob thema'n cyd-fynd â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae un neu ragor o feini prawf ar gyfer mesur pob thema; mae rhai wedi'u dosbarthu'n feini prawf 'Craidd' (y pwysicaf) neu'n feini prawf 'Uwch' (sy'n fwy uchelgeisiol).

Dyma ein chweched adroddiad gan ddefnyddio'r fframwaith hwn. Mae'n cyflwyno canlyniadau ar gyfer yr holl feini prawf Craidd (C) a'r meini prawf Uwch (U) hynny rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd yn eu herbyn. Byddwn yn diweddaru'r wybodaeth bob blwyddyn.

Amgylchedd

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Newid hinsawdd			
C	Dosbarthiad graddau Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) cartrefi presennol (y rhai a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf)	• Band A: 7.8% • Band B: 41.0% • Band C: 46.8% • Band D: 4.1% • Band E neu is: 0.6%	• Band A: 6.6% • Band B: 46.3% • Band C: 43.9% • Band D: 3.2%
C	Dosbarthiad graddau EPC cartrefi newydd (y rhai a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf)	• Band A: 66.7% • Band B: 15.6% • Band C: 13.3% • Band D: 4.4%	• Band A: 44% • Band B: 56%
U	Allyriadau nwyon tŷ gwydr Cwmpas 1, Cwmpas 2 a Chwmpas 3	Nid ydym yn eu monitro ar hyn o bryd	Nid ydym yn eu monitro ar hyn o bryd

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
U	Pa gamau i wella effeithlonrwydd ynni mae United Welsh wedi'u cymryd yn ystod y 12 mis diwethaf?	Rydym yn parhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Cwblhawyd Cam 3.2 yn 2025/26, gan wella 188 o gartrefi drwy osod systemau solar ffotofoltäig (PV) â storfa batris neu systemau SolShare, ac inswleiddio waliau allanol (EWI). Cwblhawyd Cam 3.4 hefyd, gan osod systemau solar PV neu SolShare mewn 216 o gartrefi.	Gwnaethom barhau i gymryd rhan yn y Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio. Cwblhawyd Cam 1 yn 2024/25, gan gynnwys gosod 181 o systemau solar PV â storfa batris a 62 o systemau inswleiddio waliau allanol (EWI). Cwblhawyd Cam 3 hefyd, gan osod systemau solar PV ac ychwanegu inswleiddiad at atigau mewn 342 o gartrefi.
U	Sut mae United Welsh yn lliniaru'r risgiau hinsawdd canlynol? • Mwy o berygl llifogydd • Mwy o berygl i gartrefi orboethi	Mae pob cartref newydd a ddarparwn yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy (SuDS) i reoli dŵr wyneb. Drwy gynnwys SuDS yn ein datblygiadau newydd, rydym yn gweithio i leihau achosion ac effeithiau llifogydd.	Mae pob cartref newydd a ddarparwn yn cynnwys systemau draenio cynaliadwy (SuDS) i reoli dŵr wyneb. Drwy gynnwys SuDS yn ein datblygiadau newydd, rydym yn gweithio i leihau achosion ac effeithiau llifogydd.
U	A yw United Welsh yn rhoi gwybodaeth i breswylwyr am awyru, gwresogi, ailgylchu ac ati yn gywir? Disgrifiwch sut.	Rydym yn darparu canllawiau defnyddio'r cartref ar gyfer datblygiadau newydd. Rydym hefyd yn rhoi cyngor ar gais pan fydd problem gynnal a chadw berthnasol yn codi. Byddwn yn ystyried datblygu dull mwy strategol dros y blynyddoedd nesaf fel rhan o'n strategaeth Sero Net.	Rydym yn darparu canllawiau defnyddio'r cartref ar gyfer datblygiadau newydd. Rydym hefyd yn rhoi cyngor ar gais pan fydd problem gynnal a chadw berthnasol yn codi. Byddwn yn ystyried datblygu dull mwy strategol dros y blynyddoedd nesaf fel rhan o'n strategaeth Sero Net.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Ecoleg			
U	Sut mae'r darparwr tai yn cynyddu mannau gwyrdd ac yn hybu bioamrywiaeth mewn cartrefi neu'n agos atynt?	Rydym yn parhau i ailwylltio mannau addas ar ein hystadau ac rydym bellach yn nhrydedd flwyddyn cylch saith mlynedd. Rydym wedi gweld rhywogaethau brodorol nad oeddent i'w gweld o'r blaen yn dychwelyd. Mae newidiadau diweddar i bolisi cynllunio yng Nghymru hefyd wedi cryfhau'r gofynion o ran seilwaith gwyrdd (GI) mewn tai a datblygu. O dan Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 12, rhaid i bob cais cynllunio gynnwys Datganiad Seilwaith Gwyrdd (GIS), sy'n egluro sut mae seilwaith gwyrdd yn rhan o ddatblygiad a sut y bydd o fudd i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.	Rydym yn parhau i ailwylltio mannau addas ar ein hystadau ac rydym bellach yn ail flwyddyn cylch saith mlynedd. Rydym wedi gweld rhywogaethau brodorol nad oeddent i'w gweld o'r blaen yn dychwelyd. Mae newidiadau diweddar i bolisi cynllunio yng Nghymru hefyd wedi cryfhau'r gofynion o ran seilwaith gwyrdd (GI) mewn tai a datblygu. O dan Bolisi Cynllunio Cymru (PCC), Argraffiad 12, rhaid i bob cais cynllunio gynnwys Datganiad Seilwaith Gwyrdd (GIS), sy'n egluro sut mae seilwaith gwyrdd yn rhan o ddatblygiad a sut y bydd o fudd i fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau.
U	A oes gan y darparwr tai strategaeth i reoli a lleihau pob math o lygryddion yn rhagweithiol? Os oes, sut mae'r darparwr yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad?	Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth benodol. Rydym yn bodloni holl ofynion perthnasol deddfwriaeth amgylcheddol.	Nid oes gennym gynlluniau ar hyn o bryd i ddatblygu strategaeth benodol. Rydym yn bodloni holl ofynion perthnasol deddfwriaeth amgylcheddol.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Rheoli adnoddau			
U	A oes gan United Welsh strategaeth i ddefnyddio, neu gynyddu'r defnydd o, ddeunyddiau o ffynonellau cyfrifol ar gyfer pob gwaith adeiladu? Os oes, sut mae'r darparwr tai yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad?	Ar gyfer cartrefi newydd rydym yn eu darparu ein hunain, ein dewis cyntaf yw defnyddio fframiau pren a gynhyrchir yn ein ffatri ein hunain. Mae gan y ffatri achrediad PEFC ac mae Earthly wedi ardystio'r ffatri fel busnes sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd.	Ar gyfer cartrefi newydd rydym yn eu darparu ein hunain, ein dewis cyntaf yw defnyddio fframiau pren a gynhyrchir yn ein ffatri ein hunain. Mae gan y ffatri achrediad PEFC ac mae Earthly wedi ardystio'r ffatri fel busnes sy'n cael effaith gadarnhaol ar yr hinsawdd.
U	A oes gan United Welsh strategaeth rheoli gwastraff sy'n cynnwys deunyddiau adeiladu? Os oes, sut mae'r darparwr tai yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad?	Mae strategaeth rheoli gwastraff ar waith wrth adeiladu cartrefi newydd. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldebau'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol, y mae ein contractwyr yn eu dilyn, ac felly mae'n cyd-fynd â'n dull gweithredu.	Mae strategaeth rheoli gwastraff ar waith wrth adeiladu cartrefi newydd. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldebau'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol, y mae ein contractwyr yn eu dilyn, ac felly mae'n cyd-fynd â'n dull gweithredu.
U	A oes gan United Welsh strategaeth ar gyfer rheoli dŵr yn effeithiol? Os oes, sut mae'r darparwr tai yn gosod targedau ac yn mesur perfformiad?	Mae Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yn cynnwys mesurau i leihau'r defnydd o ddŵr a rheoli dŵr glaw sy'n cael ei ollwng. Bydd y mesurau hyn yn rhan o'n gwaith i fodloni gofynion SATC.	Mae Safon Ansawdd Tai Cymru newydd yn cynnwys mesurau i leihau'r defnydd o ddŵr a rheoli dŵr glaw sy'n cael ei ollwng. Bydd y mesurau hyn yn rhan o'n gwaith i fodloni gofynion SATC.

Cymdeithasol

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Fforddiadwyedd a sicrwydd			
C	Ar gyfer eiddo sy'n dod o dan y drefn rheoleiddio rhenti, adroddwch yn erbyn un neu ragor o fesurau fforddiadwyedd: 1. Rhent o'i gymharu â rhent canolrifol y sector rhentu preifat yn yr awdurdod lleol 2. Rhent o'i gymharu â'r Lwfans Tai Lleol	Rydym yn seilio ein rhenti ar egwyddorion fforddiadwyedd a ddatblygwyd gan Sefydliad JRF. Ar gyfer cartrefi rhent cymdeithasol anghenion cyffredinol, nid yw cyfanswm ein tâl, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, yn fwy na 33% o'r Cyflog Byw Cenedlaethol safonol, wedi'i addasu ar gyfer credydau treth. Pan nad oes tâl gwasanaeth, nid yw'n fwy na 28% o'r Cyflog Byw Cenedlaethol safonol, wedi'i addasu ar gyfer credydau treth.	Rydym yn seilio ein rhenti ar egwyddorion fforddiadwyedd a ddatblygwyd gan Sefydliad JRF. Ar gyfer cartrefi rhent cymdeithasol anghenion cyffredinol, nid yw cyfanswm ein tâl, gan gynnwys taliadau gwasanaeth, yn fwy na 33% o'r Cyflog Byw Cenedlaethol safonol, wedi'i addasu ar gyfer credydau treth. Pan nad oes tâl gwasanaeth, nid yw'n fwy na 28% o'r Cyflog Byw Cenedlaethol safonol, wedi'i addasu ar gyfer credydau treth.
C	Canran a nifer y cartrefi presennol (a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol ddiwethaf) yn ôl categori: • Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol) • Rhent fforddiadwy • Tai â chymorth • Tai i bobl hŷn • Perchentyaeth cost isel	• Anghenion cyffredinol – 67% (4596) • Rhent fforddiadwy – 2% (134) • Tai â chymorth – 14% (988) • Pobl hŷn – 13% (866) • Perchentyaeth cost isel – 4% (288)	• Anghenion cyffredinol – 66% (4435) • Rhent fforddiadwy – 2% (103) • Tai â chymorth – 15% (1010) • Pobl hŷn – 13% (866) • Perchentyaeth cost isel – 4% (297)

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
C	Canran a nifer y cartrefi newydd (a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf) yn ôl categori: • Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol) • Rhent fforddiadwy • Tai â chymorth • Tai i bobl hŷn • Perchentyaeth cost isel	• Anghenion cyffredinol – 92% (97) • Rhent fforddiadwy – 0% (0) • Tai â chymorth – 6% (6) • Pobl hŷn – 0% (0) • Perchentyaeth cost isel – 2% (2)	• Anghenion cyffredinol – 97% (132) • Rhent fforddiadwy – 0% (0) • Tai â chymorth – 3% (4) • Pobl hŷn – 0% (0) • Perchentyaeth cost isel – 0% (0)
C	Sut mae United Welsh yn ceisio lleihau effaith tlodi tanwydd ar ei breswylwyr?	Mae ein Tîm Cyngor Ariannol yn helpu cwsmeriaid i reoli eu biliau ynni. Rydym hefyd wedi ymrwymo i adeiladu cartrefi newydd sy'n cyrraedd gradd EPC A, gan ddefnyddio ffynonellau ynni gwyrdd a thechnolegau di-garbon. Rydym yn treialu tariff Zero Bills Octopus mewn nifer o gartrefi ar ddatblygiad newydd i weld a allai'r dull hwn weithio ar draws ein rhaglen ddatblygu ehangach. Mae'r fenter yn galluogi preswylwyr mewn cartrefi cymwys â phaneli solar, batris cartref a phympiau gwres i beidio â thalu biliau ynni am tua phum mlynedd.	Mae ein Tîm Cyngor Ariannol yn helpu cwsmeriaid i reoli eu biliau ynni. Rydym hefyd wedi ymrwymo i adeiladu cartrefi newydd sy'n cyrraedd gradd EPC A, gan ddefnyddio ffynonellau ynni gwyrdd a thechnolegau di-garbon. Byddwn yn treialu tariff Zero Bills Octopus mewn nifer o gartrefi ar ddatblygiad newydd i weld a allai'r dull hwn weithio ar draws ein rhaglen ddatblygu ehangach. Mae'r fenter yn galluogi preswylwyr mewn cartrefi cymwys â phaneli solar, batris cartref a phympiau gwres i beidio â thalu biliau ynni am tua phum mlynedd.
U	Pa ganran o gartrefi rhent sydd â chontract tenantiaeth cyfnod penodol o dair blynedd (neu fwy)?	Mae gan bob preswylydd, ac eithrio'r rhai mewn rhai mathau o dai â chymorth, gontract meddiannaeth safonol. Mae'r contractau hyn yn rhoi sicrwydd deiliadaeth heb gyfnod penodol.	Mae gan bob preswylydd, ac eithrio'r rhai mewn rhai mathau o dai â chymorth, gontract meddiannaeth safonol. Mae'r contractau hyn yn rhoi sicrwydd deiliadaeth heb gyfnod penodol.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Diogelwch ac ansawdd adeiladau			
C	Pa ganran o gartrefi sydd ag offer nwy sydd wedi cael gwiriad diogelwch nwy achrededig dilys?	99.80%	99.90%
C	Pa ganran o adeiladau sydd ag asesiad risg tân dilys sy'n cydymffurfio â'r gofynion?	99.60%	100.00%
C	Pa ganran o gartrefi sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC 2023), gan gynnwys methiannau dros dro a llwyddiannau amodol?	95.80%	99.40%

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Llais preswylwyr			
C	Pa drefniadau sydd ar waith i alluogi preswylwyr i ddwyn y rheolwyr i gyfrif am ddarparu gwasanaethau?	Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu adborth, gan gynnwys arolygon ffôn, grwpiau ffocws a fforymau trafod ar-lein.	Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu adborth, gan gynnwys arolygon ffôn, grwpiau ffocws a fforymau trafod ar-lein. Rydym hefyd yn rhoi Strategaeth Cynnwys Cwsmeriaid newydd ar waith.
C	Sut mae'r darparwr tai yn mesur boddhad preswylwyr, a sut mae'r boddhad hwnnw wedi newid dros y tair blynedd diwethaf?	Rydym yn cynnal arolwg ffôn annibynnol parhaus gyda thua 75 o breswylwyr bob mis. Caiff y canlyniadau eu monitro drwy adroddiadau chwarterol i'r Tîm Gweithredol. O dan ein Strategaeth 2023–27, ein nod yw gwella ein lefelau boddhad o'u cymharu â sefydliadau tebyg. Yn 2025/26, roedd canlyniadau pob mesur yn hafal i ganolrif sefydliadau tebyg yn 2025 neu'n uwch, ac roedd pob un wedi gwella o'i gymharu â'n lefelau boddhad yn 2024/25.	Rydym yn cynnal arolwg ffôn annibynnol parhaus gyda thua 75 o breswylwyr bob mis. Caiff y canlyniadau eu monitro drwy adroddiadau chwarterol i'r Tîm Gweithredol. O dan ein Strategaeth 2023–27, ein nod yw gwella ein lefelau boddhad o'u cymharu â sefydliadau tebyg. Yn 2024/25, roedd canlyniadau pob mesur ond un yn hafal i ganolrif sefydliadau tebyg yn 2025 neu'n uwch. Roedd tri o'r 12 mesur wedi gwella o'u cymharu â'n lefelau boddhad yn 2023/24.
U	Yn ystod y 12 mis diwethaf, faint o gwynion a gafodd eu cadarnhau gan yr Ombwdsmon? Sut mae'r cwynion hyn (neu rai eraill) wedi arwain at newid arferion y darparwr tai?	O'r 22 o gwynion am United Welsh a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn 2025/26, penderfynwyd peidio ag ymchwilio i naw, cafodd tri eu datrys yn gynnar, roedd un y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon ac roedd naw yn gynamserol.	O'r 14 o gwynion am United Welsh a gaewyd gan yr Ombwdsmon yn 2024/25, penderfynwyd peidio ag ymchwilio i bedwar, cafodd tri eu datrys yn gynnar, roedd un y tu allan i awdurdodaeth yr Ombwdsmon ac roedd chwech yn gynamserol.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Cymorth i breswylwyr			
C	Pa wasanaethau cymorth mae'r darparwr tai yn eu cynnig i'w breswylwyr? Pa mor llwyddiannus yw'r gwasanaethau hyn wrth wella canlyniadau?	**Swyddi a hyfforddiant:** Mae atgyfeiriadau cyflogaeth yn helpu cwsmeriaid i gael gwaith ystyrlon, gyda 29 o atgyfeiriadau yn 2025/26. Cafwyd hefyd 75 o gyflawniadau hyfforddiant oedolion. **Cyngor Ariannol:** Yn rhoi cyngor ar reoli arian ac yn helpu gyda cheisiadau am Gredyd Cynhwysol (UC), Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) a budd-daliadau eraill. Cafwyd 1,353 o atgyfeiriadau yn 2025/26. **Connect:** Yn cyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac yn darparu gweithgareddau i leihau unigrwydd a helpu pobol i feithrin cysylltiadau â'u cymdogion.	**Swyddi a hyfforddiant:** Mae cynlluniau'n helpu cwsmeriaid i gael gwaith ystyrlon, gyda 21 o gwsmeriaid wedi cael cymorth i ddod o hyd i waith yn 2024/25. Cafodd 168 o gwsmeriaid gymorth hefyd i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth, a mynychodd 215 o bobol gyrsiau llesiant a hunanhyder. **Cyngor Ariannol:** Yn rhoi cyngor ar reoli arian ac yn helpu gyda cheisiadau am Gredyd Cynhwysol (UC), Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) a budd-daliadau eraill. Cafwyd 1,488 o atgyfeiriadau yn 2024/25. **Connect:** Yn cyfeirio cwsmeriaid at wasanaethau iechyd meddwl ac iechyd corfforol ac yn darparu gweithgareddau i leihau unigrwydd a helpu pobol i feithrin cysylltiadau â'u cymdogion.
Creu lleoedd			
U	Rhowch enghreifftiau neu astudiaethau achos o weithgareddau creu neu lunio lleoedd y mae'r darparwr tai wedi cymryd rhan ynddynt.	Rydym wedi cytuno ar fuddsoddiad cyfalaf sylweddol yn un o'n hystadau mawr yn dilyn gwaith ymgysylltu helaeth â'r gymuned. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae Hwb Cymunedol sy'n cael ei redeg gan wirfoddolwyr sy'n breswylwyr wedi agor fel adnodd i'r gymuned. Bydd disgwyl hefyd i'r contractwyr sy'n ymwneud â'r gwaith buddsoddi cyfalaf ymgysylltu â'r gymuned cyn dechrau ar y gwaith.	Fel rhan o'n hymrwymiad i greu lleoedd, buom yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol gynradd leol i greu murlun ar gyfer ein datblygiad newydd o 152 o gartrefi ar hen safle glofa wrth ymyl yr ysgol. Drwy gynnwys yr ysgol yn y broses greadigol, ein nod oedd meithrin ymdeimlad o falchder a pherchnogaeth, cryfhau hunaniaeth a chysylltiadau lleol, a helpu'r datblygiad newydd i ddod yn rhan o'r gymuned ehangach.

Llywodraethu

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Strwythur a llywodraethu			
C	A yw'r darparwr tai wedi'i gofrestru gyda rheoleiddiwr tai cymdeithasol?	Ydy – Llywodraeth Cymru	Ydy – Llywodraeth Cymru
C	Beth yw'r radd reoleiddio ddiweddaraf ar gyfer hyfywedd ariannol a llywodraethu?	Mae United Welsh yn Cydymffurfio o ran Llywodraethu ac yn Cydymffurfio o ran Hyfywedd Ariannol, gyda gradd Gwyrdd/Gwyrdd (y radd uchaf bosibl o dan system raddio Llywodraeth Cymru).	Mae United Welsh yn Cydymffurfio o ran Llywodraethu ac yn Cydymffurfio o ran Hyfywedd Ariannol, gyda gradd Gwyrdd/Gwyrdd (y radd uchaf bosibl o dan system raddio Llywodraeth Cymru).
C	Pa God Llywodraethu mae'r darparwr tai yn ei ddilyn, os o gwbl?	Cartrefi Cymunedol Cymru a'r National Housing Federation.	Cartrefi Cymunedol Cymru a'r National Housing Federation.
C	A yw'r darparwr tai yn sefydliad nid-er-elw? Os nad ydyw, pwy yw'r cyfranddaliwr mwyaf, pa ganran o'r berchnogaeth economaidd sydd ganddo a pha ganran o'r hawliau pleidleisio mae'n eu rheoli?	Ydym, rydym yn sefydliad nid-er-elw.	Ydym, rydym yn sefydliad nid-er-elw.
C	Eglurwch sut mae bwrdd y darparwr tai yn rheoli risgiau sefydliadol.	Map Risg Strategol ynghyd â Map Sicrwydd.	Map Risg Strategol ynghyd â Map Sicrwydd.
U	A yw'r darparwr tai wedi bod yn destun unrhyw ganfyddiadau rheoleiddiol anffafriol yn ystod y 12 mis diwethaf (e.e. achosion o dorri rheolau diogelu data, llwgrwobrwyo, gwyngalchu arian neu achosion o dorri rheolau iechyd a diogelwch neu hysbysiadau), a arweiniodd at gamau gorfodi neu gamau cyfatebol?	Nac ydy	Nac ydy

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Y Bwrdd			
C	Beth yw nodweddion demograffig y Bwrdd? Sut mae'r rhain yn cymharu â nodweddion demograffig preswylwyr y darparwr tai a'r ardal mae'n gweithredu ynddi? Ychwanegwch sylwadau os yw'n ddefnyddiol.	**Y Bwrdd:** Mae 50% yn fenywod; mae 20% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol; nid oes gan yr un ohonynt anabledd; ac mae pob un rhwng 30 a 64 oed. **Preswylwyr yn ein prif ardaloedd awdurdod lleol:** Mae 51% yn fenywod; mae 10% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol; ac mae 38% rhwng 35 a 64 oed.	**Y Bwrdd:** Mae 50% yn fenywod; mae 17% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol; nid oes gan yr un ohonynt anabledd; yr oedran cyfartalog yw 51; a'r cyfnod gwasanaethu cyfartalog yw 3.7 mlynedd. **Preswylwyr:** Mae 53% yn fenywod; mae 14% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol; ac mae 54% rhwng 25 a 64 oed.
C	Pa ganran o aelodau'r Bwrdd A'R tîm rheoli sydd wedi newid yn ystod y ddwy flynedd diwethaf? Ychwanegwch sylwadau os yw'n ddefnyddiol.	20%	14%
C	A oes cyfnod gwasanaethu hwyaf i aelod o'r Bwrdd? Os oes, beth ydyw?	Oes. Naw mlynedd yw'r cyfnod gwasanaethu hwyaf i aelodau anweithredol y Bwrdd.	Oes. Naw mlynedd yw'r cyfnod gwasanaethu hwyaf i aelodau anweithredol y Bwrdd.
C	Pa ganran o aelodau'r Bwrdd sy'n aelodau anweithredol?	83%	83%
C	Nifer aelodau'r Bwrdd ar y Pwyllgor Archwilio sydd â phrofiad ariannol diweddar a pherthnasol	Mae gan un o chwe aelod y Pwyllgor Archwilio a Risg brofiad fel cyfarwyddwr cyllid neu bennaeth risg.	Mae gan ddau o bedwar aelod y Pwyllgor Archwilio a Risg brofiad fel cyfarwyddwyr cyllid neu benaethiaid risg.
C	A oes unrhyw aelodau gweithredol presennol ar y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol?	Nac oes	Nac oes
C	A gyflwynwyd cynllun olyniaeth i'r Bwrdd yn ystod y 12 mis diwethaf?	Do. Cytunwyd ar gynllun recriwtio.	Do. Cytunwyd ar gynllun recriwtio.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
C	Am faint o flynyddoedd mae partner archwilio allanol presennol y darparwr tai wedi bod yn gyfrifol am archwilio'r cyfrifon?	1	Penodwyd darparwr archwilio allanol newydd ar gyfer 2024/25.
C	Pryd cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol diwethaf o effeithiolrwydd y Bwrdd?	2024	2024
C	A yw cadeirydd y Bwrdd a'r prif weithredwr yn ddau berson gwahanol?	Ydyn	Ydyn
C	Sut mae United Welsh yn ymdrin â gwrthdaro buddiannau ar y Bwrdd?	Os bydd gwrthdaro buddiannau'n codi mewn mater sy'n cael ei ystyried gan y Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn penderfynu a gaiff aelod y Bwrdd aros yn yr ystafell, er enghraifft i ateb cwestiynau, neu a ddylai adael. O ran materion eraill sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad, mae'r Cadeirydd yn trafod y mater ag aelod y Bwrdd ac yn cytuno ar ffordd briodol ymlaen.	Os bydd gwrthdaro buddiannau'n codi mewn mater sy'n cael ei ystyried gan y Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn penderfynu a gaiff aelod y Bwrdd aros yn yr ystafell, er enghraifft i ateb cwestiynau, neu a ddylai adael. O ran materion eraill sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad, mae'r Cadeirydd yn trafod y mater ag aelod y Bwrdd ac yn cytuno ar ffordd briodol ymlaen.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
Llesiant staff			
C	A yw United Welsh yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol?	Ydy	Ydy
C	Beth yw'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau?	7%	7%
U	Beth yw'r gymhareb rhwng cyflog y prif weithredwr a chyflog gweithwyr?	Ar 31-03-26, roedd y gymhareb rhwng cyflog y prif weithredwr a chyflog canolrifol y staff yn 4.25.	Ar 31-03-25, roedd y gymhareb rhwng cyflog y prif weithredwr a chyflog canolrifol y staff yn 4.4.
U	Sut mae United Welsh yn cefnogi iechyd corfforol ac iechyd meddwl ei staff?	Rydym yn gweithio tuag at achrediad Investors in People: We Invest in Wellbeing. Mae gennym Arweinydd Llesiant Staff amser llawn ac rydym yn darparu gwasanaeth cwnsela, profion llygaid a budd o dan gynllun iechyd. Gall staff hefyd ddefnyddio gofod penodol ar MS Teams i rannu erthyglau a sylwadau defnyddiol. Mae ein tîm Llais ar y Cyd yn gweithio gyda'r rheolwyr ar faterion staff ac yn gweithredu fel cynrychiolwyr undeb llafur. Rydym yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg ar sail ymddiriedaeth i gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn ogystal â Chronfa Galedi i roi cymorth ariannol mewn argyfwng.	Mae gennym Arweinydd Llesiant Staff amser llawn ac rydym yn darparu gwasanaeth cwnsela, profion llygaid a budd o dan gynllun iechyd. Gall staff hefyd ddefnyddio gofod penodol ar MS Teams i rannu erthyglau a sylwadau defnyddiol. Mae ein tîm Llais ar y Cyd yn gweithio gyda'r rheolwyr ar faterion staff ac yn gweithredu fel cynrychiolwyr undeb llafur. Rydym yn cynnig trefniadau gweithio hyblyg ar sail ymddiriedaeth i gefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn ogystal â Chronfa Galedi i roi cymorth ariannol mewn argyfwng.

Math C/U	Meini Prawf	Canlyniadau 2025/26	Canlyniadau 2024/25
U	Nifer cyfartalog y diwrnodau salwch fesul gweithiwr.	Nid ydym yn ei fonitro. Gan fod ein gweithlu'n gymharol fach, gall nifer fach o absenoldebau hirdymor gael effaith sylweddol ar y cyfartaledd.	Nid ydym yn ei fonitro. Gan fod ein gweithlu'n gymharol fach, gall nifer fach o absenoldebau hirdymor gael effaith sylweddol ar y cyfartaledd.
Rheoli'r gadwyn gyflenwi			
U	Sut mae creu gwerth cymdeithasol yn cael ei ystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau?	Mae ein contractau datblygu yn cynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, naill ai drwy ddarparu prentisiaethau neu neilltuo canran o werth y contract i'n Cronfa Buddsoddi Cymunedol, sy'n cefnogi gweithgareddau buddsoddi yn y gymuned.	Mae ein contractau datblygu yn cynnwys ymrwymiadau gwerth cymdeithasol, naill ai drwy ddarparu prentisiaethau neu neilltuo canran o werth y contract i'n Cronfa Buddsoddi Cymunedol, sy'n cefnogi gweithgareddau buddsoddi yn y gymuned.
U	Sut mae effaith amgylcheddol yn cael ei hystyried wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau?	Dim i'w adrodd eto.	Dim i'w adrodd eto.